**Beirniadaethau Y Fedal Ddrama,**
**Eisteddfod yr Urdd Maldwyn 2024**

I ddechrau, diolch yn fawr i bawb nath sgwennu'r deuddeg o ddramâu hollol hyfryd cawsom i'w ddarllen. Fe wnaethom ni fwynhau darllen nhw'n fawr a phob un gyda dealltwriaeth dda o greu cymeriadau ac yn archwilio pynciau fysen ni'n joio gweld yn cael eu archwilio yn y theatr. Roedd llawer o'r dramâu am bryderon cefn gwlad Cymru, effaith problemau mawr y byd fel rhyfel a'r argyfwng hinsawdd, y cyfryngau cymdeithasol, trais, rhywioldeb – i gyd yn bynciau amserol iawn.

Roedd dewis y tri ar y brig yn anodd iawn. Felly yn gyntaf dyma ein sylwadau am y dramâu eraill. Ma pob un a photensial.

**Y Saith Pechod Marwol gan Afon Teifi**
Tra mae cwpl, Paraseuux a Porco yn aros am eu ordor Deliveroo, maent yn siarad am lwyth o'u bryderon am y byd o'u gwmpas- rhyfel, llofruddiaeth, diweithdra, y cyfoethog a'r tlawd, perthnasau agored ayyb. Mae Paraseuux wedi colli eu mam ac yn ceisio gorffen y berthynas efo Porco.

Mae'r llwyfannu yn theatrig, efo teimlad bach yn abswrd. Gwnaethom fwynhau ymddangosiad dramatig y bag Deliveroo ar y diwedd yn enwedig. Mae'r dramodydd yn creu byd sy'n teimlo'n anobeithiol ac yn llawn pryderon sy'n teimlo'n dryw i deimladau llawer am y byd ar hyn o bryd. Ond, ry'n ni'n teimlo bod yna ormod o syniadau yma a fasa'n dda i archwilio'r cymeriadau mewn ffordd fwy penodol- beth mae nhw eisiau fwy na dim yn y ddrama yma? A beth sy'n stopio iddyn nhw gael hyn? Mae angen fwy o sens o beth sydd gan y ddau i golli. Fasa hyn yn helpu creu fwy o siwrne i'w perthynas a thensiwn rhyngddyn nhw o ddechrau i ddiwedd y ddrama.

**Trwy Lygaid Camera gan Blodyn Tatws**
Yn y fonolog yma mae merch yn eu hugeiniau cynnar wedi cael llond bol ar y perffeithrwydd afreal mae pobl yn rhannu am eu bywydau ar-lein ac yn cyfaddau ei bod hi'n un ohonyn nhw. Mae hi'n dyheu am weld amherffeithrwydd bywyd yn cael ei rannu ar-lein.

Mae gan y dramodydd ffordd hyfryd a chlir efo geiriau ac mae'n braf cael cymeriad sy'n rhannu meddyliau am fywyd ar-lein mewn ffordd onest a phenodol. Er hyn, mae'r gwaith yn teimlo'n agosach at fod yn ddarn o ryddiaith na drama. Er mwyn troi hwn mewn i ddrama gall y dramodydd feddwl am gynnwys digwyddiadau penodol ac annisgwyl. Y nod yw i'r digwyddiadau yma herio a chael effaith ar y cymeriad, er mwyn creu fwy o stori a thaith o ddechrau i ddiwedd y ddrama.

**Ergydion gan Broga**
Monolog gwraig fferm yn ei chegin yn rhannu sefyllfa drychinebus eu fferm llaeth, problemau ei pherthynas gyda'i gŵr a'i phryderon am ddyfodol ffermio. Drwy hyn glywn sŵn gŵn yn lladd eu buchod gyda TB ac yn y diwedd mae hi'n troi'r gŵn arni hi ei hun.

Mae’r dramodydd yma gyda meddwl theatrig gwych. Mae’r disgrifiad o’r set yn glir ac mae sŵn y gwn tu allan yn gweithio’n dda i adeiladu tensiwn yn y ddrama. Mae’r cymeriad yn un gredadwy ac yn paentio darlun gonest o’r heriau mae ffermwyr yn gwynebu heddiw. Mae’n dod fel bach o sioc ar y diwedd fod hi’n troi’r gwn arni hi ei hun, ac yn hynny, mae’r ddrama yn creu teimlad hynod o anobeithiol. Mae yna sgôp i ehangu’r fonolog hyn mewn i ddrama hirach- hoffen wybod fwy am y cymeriad yma, pethau fwy penodol amdani hi a’r ffordd mae hi’n gweld y byd. A fasa’n ddiddorol clywed fwy gan y dramodydd am yr hyn maen nhw eisiau archwilio a chwestiynu am fywyd cefn gwlad yng Nghymru heddiw.

**Llwybr Llaethog gan Croesffordd**
Drama am fab ffarm, Jac, yn dod allan i’w fam ac mae hithau yn gwpwl cefnogol. Mae Jac yn poeni am ymateb ei Dad a’r gymdeithas wledig mae o’n byw ynddo. Mae’r boi sy’n godro ar y fferm wedi ei gusanu mewn dawns ffermwyr ifanc ac yn anwybyddu Jac ers hynny. Mae hynny’n un o’r rhesymau pam mae Jac eisiau symud i ffwrdd i ffeindio ei hun ac mae ei fam yn gefnogol o hynny hefyd.

Dyma ddrama efo deialog naturiol a chredadwy, cymeriadau clir a hoffus a gwych cael stori bositif am ddyn ifanc yn dod allan i’w fam. Mae’r sefyllfa ansicr efo’r boi sy’n godro a’i Dad yn creu tensiwn ac efallai fod sgôp i ddatblygu’r stori efo rhain os am greu drama hirach? Neu, yn ddibynnol ar beth yn union mae’r dramodydd eisiau archwilio, efallai mae fwy o sgôp i archwilio pethau eraill sy’n herio’r prif gymeriad yn ei daith i ffeindio ei hun er mwyn creu siwrne gyda thensiwn a drama?

**Sgwrs yn Nhoiled Cambrian gan Mursen**
Mae Mursen yn gosod yr olygfa yn hyfryd gyda disgrifiad manwl o set e’i theatrigrwydd a'i pherthynas â'r gynulleidfa.

Gwelwn menyw ifanc ar noson allan, nawr mewn toiled cyhoeddus, yn edrych arni ei hun yn y drych. Mae hi'n llawn pryder am y noson sydd i ddod a sut y bydd hi'n llywio ei hun trwy lu o ddigwyddiadau posibl.

Mae cyfaill dirgel yn gadael un o'r ciwbiclau ac yn ymuno a hi yn y drych. Pwy yw'r person hwn? Trwy ei sgyrsiau gyda'r ffrind hwn, mae'n datgelu ei phryderon am sut i aros yn ddiogel fel merch ifanc a sut mae angen i ffrindiau edrych allan am ei gilydd a'r llu o beryglon y mae menywod bellach yn eu hwynebu yn ddyddiol. Ai ei alter ego yw’r ffrind ‘ma, y llais bach yn ei phen neu yn rhagflas o’r hyn sydd i ddod?

**Os mets mets gan slwj**
Mae'r monolog chwareus hwn yn ffrwd ymwybyddiaeth y prif gymeriad Llyr sydd wedi gwahodd ei ffrind Gwilym i'r caffi lleol i rannu newyddion mawr. Y newyddion mawr yw ei fod wedi bod yn cael perthynas gyda'i wraig.
Beth sydd gennym fan hyn yw eisampl wych o ddramodydd sydd a sgil naturiol i sgwennu deialog/ monolog. Fasen yn argymell i’r dramodydd rhoi tro ar droi’r monolog yma yn olygfa rhwng ddau ffrind, oherwydd o bosib fasen fwy effeithiol drwy roi mwy o waith i’r gynulleidfa lenwi mewn y blychau. Hoffen longyfarch y dramodydd ar ymchwilio i mewn i ben rhywun mewn ffordd mor artistig a chyda phathos a hiwmor gwych gyda sgiliau arsylwadol gwych o'r cyflwr dynol.

**Difaru gan Gilfaethwy**
Am ddramodydd mor ifanc mae ceisio ar sgwennu am bwnc mor torcalonnus yn ddewr, ac mae hyn yn amlwg yn bwnc sydd yn trafferthu'r ifanc y dyddie 'ma.

Mae Rhodri yn aros am ei ffrind yn y dafarn. O'r diwedd dyma Guto yn cyrraedd ond mae yna densiwn amlwg a rhywbeth mawr o'i le. Wrth i'r ddeialog bachog ein tywys ni trwy'r digwyddiad, daw yn amlwg fod Guto, ar ol cael ei gyhuddo o treiso merch ifanc ar 'one night stand' wedi gwneud rhywbeth bydd yn newid ei fywyd am byth.

Trais a llofryddiaeth yw'r themau a sut mai bachgen ifanc sydd wedi cael rhyw ar ol meddwi gyda merch wedi ymateb mor wyllt o gael ei gyhuddo o'i threisio hi.
Mae dialog cryf rhwng y ddau gymeriad a gwaith hyfryd at drio dal pathos a naws a tensiwn rhwng y ddau. Mae'r ddrama yn ein gadael ar ryw fath o cliff hanger, a hoffen wbod sut mae'r ddau nawr yn delio gyda'r sefyllfa annirnadwy yma.

**Tywydd gan Heulog**
'Mae'r byd yn hormonal' meddai Heulog yn y ddrama hyfryd hon sy'n ymdrin a rhywioldeb, cyfeillgarwch a colled merch 16 mlwydd oed ymhlith cefndir cynhesu byd-eang. Mae yna deimlad trwy gydol y ddrama fod cynhesu byd eang fel rhyw fath o metaphor ar gyfer teenage angst. Hyfryd.
Ma 'popeth yn ormod weithiau' fel y dwedai Heulog.
Mae Lleuwen, y prif cymeriad, yn ein tywys trwy y tymhorau. Dyw'r tywydd ddim yn gwneud yr hyn y mae i fod ac ochor yn ochor a hyn dyw ei bywyd hi ddim yn neud beth mae i fod, ond yn y pen draw, bo nhw gyd yn 'ok.
Delweddau hyfryd a defnydd o iaith fynegiannol hyfryd i lliwio'r byd trwyddi draw. Dyma lais barddol hoffwn glywed mwy gan.

**Drama gan Y Ffidlwr**
Mae cwpl, dyn a menyw, mewn cyflwr o argyfwng wrth iddynt geisio llywio celwydd sydd bellach yn eu rhwygo ar wahân. Mae'r ddrama yn ymchwilio i themâu awtistiaeth a bod yn Cwiar. Mae Robert wedi bod yn cadw celwydd am ei deimladau wrth ei gariad Carwen ac wrth ddatgelu ei fod yn hoyw, mae Carwen sydd yn awtistig yn ca'l meltown (ymateb gryf iawn i ormod o fewnbwn synhwyraidd neu i emosiynnau cryf iawn ble all bobl awtistig ddechrau gweiddi, crio ac o bosib dechrau pwno ei hunain neu eraill)

Mae'n amlwg fod y dramodydd yn angerddol am ei bwnc/phwnc, ond teimlaf mai cychwyn ar syniad sydd gennym ni fan hyn gyda'r ddrama ychydig yn esboniadwy. Hoffen annog Y Ffidlwr i gario ymlaen ar ei siwrnai a cadw sgwennu ac archwilio.

Ac felly y tri sy'n weddill, ac sy'n dod i'r brig yw:
Amserlen Ffug
Ar y ffens
Misfits

Mae'r dewisiadau yma'n deillio o'r ffaith mai dewis y dramâu sydd â phwrpas clir, cymeriadau credadwy, stori glir gyda strwythur pendant a wnaethom.

**1af: Amserlen Ffug gan Sied Pinc**

Drama agos atoch oedd yn ein annog i gadw darllen o'r cychwyn cyntaf. Stori am ddwy ffrind sydd wedi syrthio allan, a clywn am benderfyniad a fyddai'n newid eu bywydau am byth.

Mae Carys yn eistedd ar fainc wrth ymyl trac trên. Mae hi ar ei ben ei hun, nes daw ffrind i ymuno â hi. Maent yn amlwg yn grac a'i gilydd ac mae'r cyfnewid deialog yn dal tensiwn rhyfeddol, ac yn araf bach yn datgelu'r stori sy'n arwain at y datguddiad. Mae'r ffrind, mewn gwirionedd, ychydig fisoedd yn ôl, wedi cyflawni hunanladdiad trwy neidio ar y traciau y mae Carys bellach yn edrych arnynt. Dyma ei sgwrs olaf, ei ffarwel olaf gyda'i ffrind sydd ddim yma bellach.

Dyma ddeialog bachog, gwych gyda cysyniad syml ond theatrig sydd yn llwyddo i ddal y boen a'r dasg amhosib o ollwng gafael ar y gorffennol. Mae'n archwilio rywbeth mor cymhleth mewn ffordd agos ata ti a llawn calon.

**2il: Ar y Ffens gan Eos**

Mae Martha yn paentio ffens ac yn rhannu efo'r gynulleidfa fod pobl o ffwrdd wedi difetha'r tir ar yr ochr arall i'r ffens - does dim mwydod yno rhagor. Mae hi wedi cael cynnig hael gan gwmni o ffwrdd i werthu ei thir ar gyfer coed ond mae hi wedi ei gwrthod. Mae ei merch Branwen yn dod ati gyda newyddion fod y bobl oedd berchen y dafarn leol wedi symud i ffwrdd ac mae hi eisiau iddi hi a'i mam ei brynu. Ar ôl rhannu efo'r gynulleidfa fod yr ardal wledig wedi newid gymaint ,mae hi'n barod i wneud rhywbeth am y peth a dechrau plannu llysiau. Mae'n mynd dros y ffens at y tir ar yr ochr arall ac yn gweld mwydyn.

Mae'r ddrama yn paentio darlun o'r sefyllfa a'r heriau sy'n gwynebu cefn gwlad Cymru heddiw drwy lygaid cymeriad credadwy sydd eisiau gwneud rhywbeth positif i newid y sefyllfa. Mae'r dramodydd yn adeiladu'r sefyllfa a'r stori yn dda drwy'r deialog naturiol ac yn dod a phwnc perthnasol a chymhleth i'r llwyfan mewn ffordd greadigol a diddorol. Hefyd mae'n dangos dealltwriaeth wych o sgwennu ar gyfer y llwyfan, a phwysigrwydd natur weledol drama i gyfleu ystyr, drwy'r weithred o baentio ac wedyn dringo dros y ffens. Ry'n ni'n teimlo fod yna fwy o le i herio safbwynt y prif gymeriad a chreu fwy o broblemau iddi a bod hefyd lle i archwilio cymeriad Branwen ei merch yn fwy er mwyn gwneud hynny. Ma'r sgwennu trwy gydol mor aeddfed heb lot o wastraff geiriau a defnydd y ffens fel metaffor yn hyfryd iawn.

**3ydd: Misfits gan Enfys**

Yn y ddrama yma mae Sara, merch yn ei ugeiniau cynnar yn aros am ei dêt, sydd heb droi fyny. Mae hi'n aros mewn bar sy'n cael ei redeg gan ferch arall yn ei ugeiniau o'r enw Lilly. Mae Sara yn rhannu efo Lilly ei thrafferthion am ffeindio dyn ac mae Lilly yn awyddus i gadw hi yn y bar yn yfed. Ar ôl i Lilly gloi'r drws mae'n dod i'r amlwg fod hi'n gwybod llwyth am fywyd Sara ac eisiau dial arni am ddwyn ei ffrind yn y brifysgol. Lilly sydd wedi bod yn gyrru negeseuon ati i drefnu heno, nid Dan y dêt, a hi, hyd yn oed, oedd yr un nath ladd cyn-gariad Sara.

Mae'r ddeialog yn naturiol ac yn llifo'n dda a'r sefyllfa ddramatig yn datblygu mewn ffordd annisgwyl. Da hefyd cael cymeriad sy'n dysgu'r Gymraeg. Efallai fod o'n anodd credu fod Lilly wedi mynd mor bell a lladd cyn-gariad Sara fel dial am ddwyn ei ffrind, heb i ni ddeall fwy am seicoleg Lilly. Efallai bod yna botensial i archwilio fwy o gomedi tywyll, yr abswrd, neu ffars fan hyn i helpu gwneud fwy o synnwyr o'r digwyddiadau, yn ddibynnol ar beth yn union mae'r dramodydd eisiau archwilio a chwestiynu.